



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

# **Ysgol Dechnolegau Caerdydd**

**PgC/PgD/MSc Rheoli Technoleg Gwybodaeth**

**PgC/PgD/MSc Rheoli Prosiectau Technoleg**

**PgC/PgD/MSc Gwyddor Data**

**PgC/PgD/MSc Cyfrifiadura**

**Gwybodaeth Ymuno**

**Blwyddyn Academaidd 2018/2019**

## CYNNWYS

1. [Croeso gan eich Tîm Addysgu](#)
2. [Cofrestru / Casglu Cerdyn Myfyriwr MetCard](#)
3. [Amserlen yr Wythnos Sefydlu](#)
4. [Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Nodweddiadol](#)
5. [Dolenni hanfodol/defnyddiol](#)

## 1. Croeso gan Gyfarwyddwr eich Rhaglen

Hoffwn ddymuno croeso cynnes iawn i chi i'r rhaglenni hyn. Fel dysgwr sy'n oedolyn – ac o bosibl, yn weithiwr proffesiynol – byddwch yn dod â phrofiad gwerthfawr i'r cwrs. Y nod yw i chi adeiladu ar y profiad hwn a, gobeithio, mwynhau eich astudiaethau.

Mae fy nghydweithwyr a minnau'n ymwybodol iawn y bydd hyn i lawer ohonoch yn ddilyniant naturiol sy'n llifo o gymhwyster blaenorol; i rai ohonoch chi fydd hwn yn golygu dychwelyd i astudio ar ôl cyfnod hir o amser, ac i eraill byddwch yn mynychu'r brifysgol i dderbyn cydnabyddiaeth ffurfiol am y gwaith a wnewch yn y gweithle. Felly, mae'r rhaglenni hyn wedi'u cynllunio i ddarparu ar gyfer anghenion ystod eang o ymgeiswyr o leoliadau gwahanol. Beth bynnag eich llwybr i mewn i'r cwrs, gallwch fod yn sicr y bydd tîm y rhaglen yn ymdrechu i ddarparu cefnogaeth ac anogaeth addas. At hynny, mae'r rhaglenni hyn oll wedi'u cynllunio o fewn y ddwy flynedd ar y cyd â sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol, megis Cymdeithas Adeiladu'r Principality, SAS a France Telecom felly gallwch fod yn sicr eu bod yn berthnasol i'ch dyheadau gyrfa.

Fel myfyriwr ôl-raddedig, mae'n bwysig cydnabod yr ymrwymiad yr ydych yn ei wneud; efallai y bydd gennych ymrwymadau gwaith, cartref/teulu a chymdeithasol, ac mae ymgymryd â'r cwrs hwn yn ychwanegu ymrwymiad arall – ymrwymiad i astudio. Bydd gennych yr her o reoli'r ymrwymadau amrywiol hyn.

Heb amheuaeth, ar hyn o bryd, byddwch yn teimlo eich bod wedi cael toreth o wybodaeth, ond mae'n cynnig y cyfle i chi ei hystyried yn eich pwysau yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn academiaidd.

Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod adeg ymrestru ac mae tîm y rhaglen yn edrych ymlaen at weithio gyda chi.

**Dr Ambikesh Jayal**  
**Cyfarwyddwr y Rhaglen MSc**

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd  
Campws Llandaf  
Western Avenue  
Caerdydd  
CF5 2YB  
029 2041 6395  
[ajayal@cardiffmet.ac.uk](mailto:ajayal@cardiffmet.ac.uk)

## 2. Cofrestru / Casglu Cerdyn Myfyriwr MetCard

### YMRESTRU

Mae ymrestru yn broses hanfodol a fydd yn cadarnhau eich statws yn fyfyrwr Met Caerdydd ac yn rhoi mynediad i chi i systemau TG Met Caerdydd, gan gynnwys Moodle (llwyfan dysgu Met Caerdydd), talu ffioedd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich MetGerdyn. Caiff cardiau adnabod eu dosbarthu yn ystod y cyfnod cynefino.

Gallwch gwblhau'r broses Hunan-Ymrestru ar-lein oddi ar unrhyw gyfrifiadur drwy system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd pan fyddwch wedi derbyn eich **Ebost Ymrestru**.

Pan gewch eich Ebost Ymrestru, dechreuwch y broses hunan-ymrestru drwy fynd i'r tudalen gwe [www.cardiffmet.ac.uk/enrolment](http://www.cardiffmet.ac.uk/enrolment) a dilyn y canllawiau cam-wrth-gam a fydd wedi'u darparu. Er mwyn cael mynediad i'r adran Ymrestru ar system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd, bydd angen i chi fewngofnodi gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. **Rhowch yr un enw defnyddiwr a'r cyfrinair i mewn ag y gwnaethoch eu defnyddio yn wreiddiol er mwyn ymgeisio.** Mae canllawiau wedi'u darparu os byddwch wedi anghofio'r enw defnyddiwr/ cyfrinair. Noder: er mwyn Hunan-Ymrestru, rhaid i'ch statws gyda Met Caerdydd fod yn **UF (Pendant Di-amod)** h.y. rhaid boddhau pob amod a rhaid bod wedi derbyn lle.

### 3. Amserlen yr Wythnos Gynefino

Anfonir yr amserlen ar gyfer yr wythnos gyntaf ym mis Medi 2018. Fodd bynnag, i roi syniad ichi, dyma amserlen gynefino ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Yn ogystal â dilyn hyn, gallwch hefyd weld mwy o wybodaeth ar yr hyn i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cyrraedd ar ein tudalennau Myfyrwyr Newydd ([www.cardiffmet.ac.uk/newstudents](http://www.cardiffmet.ac.uk/newstudents))

#### *Amserlen Gynefino MSc Hydref 2018*

Dydd Llun 2 Hydref 2018	Dydd Mawrth 3 Hydref 2018	Dydd Mercher 4 Hydref 2018	Dydd Iau 5 Hydref 2018	Dydd Gwener 6 Hydref 2018
11am – 12 canol dydd: Croeso i Brifysgol Fetropolitan Caerdydd gydag Anita Spittle Ystafell Ewch i Dderbynfa'r Ysgol Reoli	12 canol dydd – 1pm: Astudio yn y DU gyda staff o'r Swyddfa Ryngwladol Ystafell	1.30-3 pm: Croeso i'r MSc / Cwrdd â'r Tîm Gweithdrefnau MSc gyda Dr Ambikesh Jayal Ystafell	11am – 12 canol dydd: Sgiliau Dadlau a Chyflwyno gyda Mike Snelgrove Ystafell	11am – 1pm:
12 canol dydd – 1pm:	1pm-2 pm: Iechyd Myfyrwyr gyda Sue King Ystafell	3.30pm – 5pm: Cynefino â'r Llyfrgell gyda Jamie Finch Ystafell	1pm – 3pm:	2pm – 5pm:
2pm – 4pm: Sgiliau Cyfathrebu Effeithiol ar gyfer Astudio a Gwaith gyda staff o'r Swyddfa Ryngwladol Ystafell	2.30pm - 3.30pm: Cyflwyniad i'r Undeb Myfyrwyr gyda Will Fuller Ystafell			

#### Ystafelloedd i'w cadarnhau

Bydd ymrestru yn digwydd yng Nghanolfan Dysgu Llandaf drwy'r dydd ar ddydd Llun 1 Hydref, ac yna yn y bore ar 2, 3, 4 a 5 Hydref. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymrestru, er mwyn cael eich cerdyn Prifysgol a mynediad at y Porth Myfyrwyr.

Bydd darlithoedd yn dechrau yn ystod yr wythnos 8 Hydref, a bydd seminarau yn dechrau yn ystod yr wythnos 15 Hydref 2018.

#### 4. Presenoldeb / Amserlen ddrafft neu nodweddiadol

Bydd addysgu yn dechrau ar ddydd Llun 8 Hydref 2018. Darperir yr union amserlen cyn neu yn ystod yr wythnos gynefino a fydd yn dechrau ar ddydd Llun, 1 Hydref 2018.

#### 5. Dolenni Defnyddiol

- [Y Llawlyfr Academaidd](#)
- [Llety](#)
- [Costau Ychwanegol](#)  
Costau ychwanegol yw unrhyw dreuliau gorfodol neu opsiynol, ar ben y ffioedd dysgu, y bydd angen eu talu gan fyfyrwyr iddyn nhw gael cymryd rhan lawn a chwblhau eu hastudiaethau.
- [Polisi Derbyn](#)
- [Cysgodfa Beiciau](#)  
Wedi i chi gyrraedd y campws a chasglu eich cerdyn adnabod byddwch yn gallu gofyn am fynediad i'r gwahanol gysgodfeydd beiciau o gwmpas y campwsau.
- [Mapiau'r Campws a'r MetWibiwr](#)
- [Newyddion Met Caerdydd](#)
- [Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)
- [Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) *gan gynnwys gwybodaeth a breichledau i'r myfyrwyr glas*
- [Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#)  
Os bydd eich rhaglen yn golygu y bydd rhaid i chi ddod i gysylltiad â phlant neu â phobl ifanc neu bobl fregus, bydd rhaid i chi fod wedi cael gwiriad cofnodion troseddol yn rhan o'ch cynnig.
- [Iechyd Galwedigaethol](#)  
Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch bresennol, bydd gofyn i bob myfyriwr a fydd yn cymryd rhaglen sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd (â chydran lleoliad clinigol yn rhan o'r rhaglen), gymryd rhan mewn asesiad Sgrinio Iechyd Galwedigaethol gorfodol. Yn ogystal, bydd yn ofynnol bod rhai cyrsiau'n cydymffurfio â rhaglen frechu ac imiwneiddio'r Adran Iechyd.
- [Cyllid Myfyrwyr](#)  
I gael gwybodaeth ar ffioedd dysgu, disgownt cyn-fyfyrwyr, benthyciadau ac ysgoloriaethau, yn ogystal â gwybodaeth gyswllt ar gyfer Gwasanaeth Cynghori Ariannol y Myfyrwyr.
- [Llawlyfr y Myfyrwyr](#)
- [Gwasanaethau Myfyrwyr](#)  
I gael cymorth yn ystod eich amser gyda ni o ran eich iechyd, lles, dull byw a gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i chi er mwyn sicrhau y bydd eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosib. Bydd y Gwasanaethau hefyd yn cynnwys cynghori personol, anabledd a'r gaplaniaeth.
- [Dyddiadau'r Tymhorau](#)
- [Rhith Deithiau](#)  
Mynnwch olwg arall o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau gyda'n rhith deithiau tywys